CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd am 7pm ar 6 Tachwedd 2023 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

---

Presennol:
Cadeirydd Cyng Iwan Davies. Cyngr: Hywel Davies, Colin Lewis, Ken Symmons, Richard Rose

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 0

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyngr N Redmond, A Edwards, J Culley, G El Tawab.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Datgelodd y Cyngr C Lewis, K Symmons a H Davies i gyd ddiddordeb personol yn y cais am grant ar gyfer Cinio Nadolig y Bobl Hŷn.
Datgelodd y Cyng I Davies ddiddordeb mewn taliad i Telemat.

**3. Cadarnhau trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Gan fod y Cyng C Lewis wedi dweud y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod am 9pm, cytunwyd i symud rhai eitemau brys ymlaen.

**4. Cadarnhau Cofnodion 02-10-23 a 12-10-23**
Cadarnhau penderfyniadau a wnaed ar 12-10-23

| | | |
|---|---|---|
| Penderfynwyd derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. | Eiliwyd | |
| Cyng C Lewis | Cyng R Rose | Cytunwyd |

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

*Gorfodi Cynllunio*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Diweddariad LDP2*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Gohiriwyd.

**7. Cyllid a Gweinyddu**
*7.1 Taliadau Misol*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 06/11/2023 | S Davies gross | | | 370.12 |
| | SSE SWALEC | Electricity | | 147.21 |
| | Telemat Antur Cymru Enterprises | New laptop | | 561.98 |
| | Danfo | Clean inv 7399 | | 319.50 |
| | Coracle Hall | Hire | | 30.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 06/11/2023 | S Davies Gros | | 370.12 |
| | SSE SWALEC | Trydan | 147.21 |
| | Telemat Mentrau Antur Cymru | Gliniadur Newydd | 561.98 |
| | Danfo | Glanhau Anf 7399 | 319.50 |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd | 30.00 |

Dywedodd y Clerc fod

Dywedodd y Clerc fod anfoneb bellach wedi dod oddi wrth Danfo (7454) am £340.50 a byddai'n cael ei thalu yn ôl y contract.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn y taliadau fel y cawsant eu cyflwyno. | Cytunwyd |

*Roedd yn ymddangos bod y Codiad Cyflog Cenedlaethol am 23-24 wedi ei gytuno ac roedd y Clerc yn disgwyl cael gwybod am y cyfraddau. Byddai'n cael ei ôl-ddyddio i fis Ebrill 23, a byddai angen ei gymryd i ystyriaeth wrth drefnu'r gyllideb ar gyfer y swydd yn 24-25.*

*7.1.2 Cymhwysiad y Banc*
I ddod.

*7.2 Drafft cyntaf cyllideb 24-25*

Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2024

Cynnig i wneud y taliad o £156 i Gyngr yn orfodol. Mae HMRC wedi cadarnhau na fydd y

swm hwn yn drethadwy.
Fe fydd lwfans y Cadeirydd yn drethadwy oni chaiff ei dalu allan o wariant wedi ei gymeradwyo drwy gyflwyno anfonebau.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Nad yw'r Cyngor yn cefnogi'r taliad gorfodol o £156 bob blwyddyn i Gynghorwyr. | Cytunwyd |

Dywedwyd nad oedd dim dyfynbrisiau wedi dod am y Contract Cynnal a Chadw'r Tir ar gyfer 24-25. Roedd y Clerc wedi siarad â'r contractiwr presennol, a oedd wedi cytuno i gynnig dyfynbris ar gyfer 24-25 i helpu'r Cyngor os byddai'n cael cais i wneud hynny.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| O gofio bod brys i osod ffigurau'r gyllideb, cytunwyd i ofyn am ddyfynbris gan y contractiwr presennol. | Cytunwyd |

*7.3 Archwiliad Allanol Diwedd Blwyddyn hyd at fis Mawrth 2022 – her*
Mae'r Clerc wedi darparu tystiolaeth fod y Cyngor wedi dilyn y drefn gywir ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon yn hwyr. Nawr yn disgwyl ymateb oddi wrth Archwiliad Cymru.

*7.4 Grantiau*
*7.4.1 Digwyddiadau Cymunedol Llechryd – Cinio Nadolig y Bobol Hŷn*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Dyfarnu'r swm o £1000. | Cytunwyd |

*7.4.2 Cymdeithas Chwaraeon*
Cytuno ar bwyntiau cychwyn yn y prosiect a'r swm/grant i'w roi.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gohiriwyd. | Cytunwyd |

*7.5 Cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn dyddiadau'r cyfarfodydd fel y cawsant eu cyflwyno yn ddibynnol ar gadarnhau hurio'r neuadd. | Cytunwyd |

**8. Pwyllgor AD a Recriwtio: Clerc/SCC**

Cytunodd y Pwyllgor ar y penderfyniad canlynol a gofynnir i bob aelod o'r cyhoedd a'r wasg adael y cyfarfod yn y fan hon. Penderfyniad: *Oherwydd natur gyfrinachol y busnes i gael ei drafod, bod y cyhoedd a'r wasg yn cael eu hepgor o'r cyfarfod yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, Adran 1*

Cyflog, oriau a disgrifiad swydd newydd. Cadarnhau aelodau'r Pwyllgor AD a'r Cylch Gwaith (CG).

*Penderfyniad: Derbyn aelodau'r cyhoedd a'r wasg.*

Dywedwyd y byddai'n rhaid trefnu trosglwyddo ffisegol ar ddiwrnod olaf y Clerc.
Cytunodd y Cyng C Lewis yn garedig i gyfrannu ffôn clyfar ar gyfer y Cyngor yn unig.
Cytunodd y Cyng I Davies i ymchwilio i daliad/contract priodol ar gyfer y Cyngor. Y ffôn fyddai'r prif bwynt cyswllt ffôn ar gyfer y Cyngor, ac os byddai ar gael i'r Clerc byddai hi'n trefnu i gyfrifon sy'n gofyn am gadarnhad PIN gael eu trosglwyddo i'r rhif newydd os byddai'n bosibl.
Byddai angen cyfeiriad newydd i'r Cyngor. Argymhellodd y Clerc rif Blwch PO gan nad oes angen i hynny ddangos cyfeiriad cartref y Clerc, a byddai'n ddiogelwch yn ystod unrhyw gyfnod trosglwyddo ymhlith staff yn y dyfodol.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor AD fyddai<br>Cyngr I Davies, J Culley, N Redmond, R Davies, G El Tawab.<br>Cylch Gwaith y Pwyllgor fyddai: Delio â'r holl faterion yn ymwneud â recriwtio Clerc/SCC newydd, gan gynnwys dewis yr ymgeiswyr i gael eu cyfweld. Penodiad yr ymgeisydd a ddewisir i gael ei wneud drwy benderfyniad y Pwyllgor AD. Y penderfyniad hwnnw i gael ei gyfleu i Aelodau'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.<br>Derbyn y disgrifiad swydd. Bod yr oriau ar gyfer y swydd yn 10 yr wythnos i gynnwys gwaith yr Elusen.  Bod cyfradd y gyflog wrth benodi rhwng graddfa 8 ac 20 o gytundeb Cyfog Gwasanaethau Llywodraeth Leol 2023/24. | Cytunwyd |

**9 Cyfarfodydd y dyfodol**
7.2.1 Cyfieithu yng nghyfarfodydd y Cyngor – Cyng I Davies

Mae'r Cyng Davies wedi siarad â chyswllt yn CSC sy'n cynnig cyfieithu ar y pryd ym mhob un o'i gyfarfodydd. Roedd y gost gychwynnol o sefydlu hyn i gefnogi cyfarfodydd hybrid wedi bod dros £50k ac roedd angen  dau gyfieithydd, y naill o'r Gymraeg i'r Saesneg a'r llall o'r Saesneg i'r Gymraeg. Roedd y broses yn dal i gael ei hadolygu a'i datbygu.

Roedd hefyd wedi cael rhai costau sylfaenol ar gyfer cyfieithydd a chyfarpar ffonau pen.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod swm yn cael ei ychwanegu at y gyllideb ar sail y wybodaeth a oedd wedi ei darparu. Y swm hwnnw i adlewyrchu dwy awr o gyfieithu ar y pryd (Cymraeg i Saesneg) am bob cyfarfod yn ôl trefn y cyfarfod a oedd wedi ei chytuo – cost £100 i £150 y cyfarfod. Er y gallai fod yn bosibl cyflogi cyfieithydd a oedd yn darparu ffonau pen, nid oedd hynny bob amser yn digwydd. Felly, dylid ychwanegu ffigur cyllideb o £150 ar gyfer set pen i'r Clerc a'r Cyngr.<br>Dywedwyd bod yr union ddull o ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod hybrid yn dal i gael ei drafod. | Cytunwyd |

**10  Cofrestru llyw.gov**

Dywedwyd bod y cyfeiriad e-bost ac enw'r parth nawr yn barod i'w defnyddio, ond byddai eu gweithredu'n cael ei adael nes byddai'r Clerc newydd wedi ei benodi..

***11 Cofrestru Tir / Prydles***

Nodi bod prisiad y tir wedi ei roi i'r Cyfreithiwr, felly gallai cofrestru tir yr Elusen fynd yn ei flaen.

Pan fyddai'r mapio angenrheidiol wed ei gwblhau, byddai'r brydles lawn yn cael ei chyflwyno i Ymddiriedolwyr Neuadd y Cwrwgl i'w chymeradwyo a'i chyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

**12 Rhodd o dir**

Nodwyd nad oedd y Gofrestrfa Tir wedi penderfynu o blaid Ystâd y diweddar Mr Sallis. Roedd y Cyfreithiwr a oedd yn gweithredu ar ran yr Ysgutorion wedi cau'r achos.

***13 Bathodyn y Swydd i'r Is-gadeirydd***

Yn parhau.

**14. Pwyllgorau**

*14.1 Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned*

Aelodau'r Pwyllgor: Cyngr J Culley, A Edwards, R Davies, C Wychwood

Dyddiad y cyfarfod nesaf - penderfyniad wedi ei ohirio.

**15 Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

*15.1 Mannau gweithredu – Priffyrdd*

*15.1.1 Croesfan yn Llechryd*

Gohiriwyd

*15.1.2 Arwyddion enwau pentrefi a materion cyflymdra - lleoliadau*

Gohiriwyd gan nad oedd map copi caled A3 ar gael.

*15.2 Llwybrau troed / mannau agored*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*15.3 Pont Llechryd / yr Afon - Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw gamau pellach*

Nodwyd y byddai'r bont ar gau, fel yn y neges e-bost a anfonwyd gan y Clerc, ym mis Rhagfyr er mwyn clirio sbwriel.

**16. Amwynderau**

*16.1 Bloc Toiledau*

16.1.1. Nodi gyda diolch y gwaith trwsio a wnaed gan Danfo yn ddi-dâl.

16.1.2 Trydanwr

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Pan fyddid yn cysylltu â'r trydanwr, byddai'n cael cais am ddyfynbris am archwiliad trydan llawn o'r adeilad (ynghyd â chostau trwsio) a darparu a gosod | Cytunwyd |

| | |
|---|---|
| gwresogydd atal rhew yn y cwpwrdd. | |

*16.2 Man / Cae Chwarae*
*Adnewyddu'r ffrâm ddringo – bydd yn dal yn eiddo i'r CC*
Yn parhau.

*16.3 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
Diweddariad.
Dim ymateb eto wrth yr Eglwys yng Nghymru am sylwadau'r Pensaer ynglŷn â gwrthod cynllun y gwaith arfaethedig.

*16.4 Adeilad y Mileniwm*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*16.5 Mainc goffa i'r trigolion*
Roedd y Clerc wedi methu â dod o hyd i faint y sail bresennol ers i hynny gael ei ddarparu. Cynigiodd y Cyng H Davies yn garedig fesur yr ardal eto.

*16.6 Darparu rhandiroedd*
Ar ôl cael cais am ddarparu rhandiroedd, bydd y Cyngor yn ystyried y mater ymhellach os daw safle addas ar gael.

*16.7 Cysgodfannau bws*

*16.8 Diffibrileiddwyr*
Neuadd y Cwrwgl – ymchwilio i flwch newydd. Gofyn i drydanwr am ddyfynbris am ei osod.
Llangoedmor

*16.9 Hysbysfyrddau*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**17. Digwyddiadau**
*17.1 Glanhau Afon Teifi*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gan fod prosiect o'r fath y tu hwnt i allu'r Cyngor, byddai'n cael ei dynnu oddi ar yr agenda. | Cytunwyd |

*17.2 Mari Lwyd – Cyng C Wychwood*
Gohiriwyd.

*17.3 Grant Cymorth Cyntaf Cymunedol*
Dywedodd y Clerc fod y Cyng R Davies wedi awgrymu y gallai ymchwilio i'r arian grant.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gofyn i'r Cyng R Davies a fyddai'n fodlon edrych ar y cyfle ariannu. | Cytunwyd |

*17.4 Goleuadau'r Nadolig – 30 Tachwedd 6pm*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Cytuno i brynu melysion i’r plant. | Cytunwyd |

*17.5* D-DAY 80 – 6 MEHEFIN 2024

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ychwanegu swm o £100 at y gyllideb. | Cytunwyd |

**18. Adroddiadau**

Derbyn unrhyw adroddiadau.

*18.1 Cyng R Davies – Llywodraethwyr Ysgol*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*18.2 Cyng A Edwards –Neuadd y Cwrwgl*

Yn absenoldeb y Cyng Edwards, dywedwyd mai cyllideb dynn iawn oedd gan y Neuadd i weithio gyda hi.

*18.3 Cyngr A Edwards ac G El Tawab – cyfarfod PACT*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*18.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd)*

Gobeithid trefnu cyfarfod gyda CAVO i ymchwilio i ddewisiadau arian grant..

*18.5 Cyng J Culley Pwyllgor rhanbarthol Un Llais Cymru*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*18.6 Cyng J Culley Pwyllgor Moeseg a Safonau*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*18.7 Cyng C Lewis* Digwyddiad Rhanddeiliaid Afon

Dywedwyd y byddid yn gofyn i CNC gynyddu ei allu i ddadansoddi maethion i gynnwys y tebygolrwydd o gael gwirfoddolwyr i gasglu samplau dŵr.

18.8 Cyng K Symmons *Cyfeillion Ysbyty Aberteifi*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**19. Gohebiaeth i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**

Llywodraethwr Cymunedol Ysgol 3-19 Bro Teifi Community Governor

Nodwyd.

**20. Materion Personol Cyfnewid Gwybodaeth rhwng Cynghorwyr i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**21. Dyddiad y cyfarfod Nesaf – 04/12/23**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i’w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm*

Chairman’s signature 04-12-23